



CWBR

Community Well-being and
Resilience Project



Ffordd Clarbeston a Chas-wis 2019



FFORDD CLARBESTON A CHAS- WIS: CEFNDIR A STORI HYD YN HYN

Ar wahoddiad Pwyllgor Adfer Eglwys y Santes Fair Cas-wis, AFC Ffordd Clarbeston, Pwyllgor Neuadd Goffa Ffordd Clarbeston a Chyngor Cymuned Cas-wis, gofynnwyd i PLANED hwyluso gweithdy creu gweledigaeth ar gyfer y gymuned yn Neuadd Goffa Ffordd Clarbeston a chefnogi cynhyrchu cynllun llesiant ar gyfer cymuned plwyf Cas-wis.

Prosiect Llesiant a Gwytnwch Cymunedol

Mae'r prosiect yn beilot dros ddwy flynedd, wedi ei ariannu gan raglen LEADER Arwain Sir Benfro.

Mae gan PLANED hanes hir a llwyddiannus o weithio gyda chymunedau a'u hymgysylltu.

Bydd y Prosiect Llesiant a Gwytnwch Cymunedol yn archwilio sut y gall cynghorau tref a chymuned feithrin llesiant a gwytnwch cymunedol, drwy ymgysylltu eu cymunedau i ddatblygu asesiadau, cynlluniau a gweithgareddau prosiect llesiant lleol.

Bydd y prosiect yn rhoi polisi ar waith. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ddarn o ddeddfwriaeth arloesol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n well gydag eraill a chymryd ymagwedd fwy cysylltiedig, ataliol, a hirdymor fel bod eu penderfyniadau'n cael effaith gadarnhaol ar bobl yn y dyfodol yn ogystal â heddiw.

Bydd y wybodaeth a gasglwn yn cyfrannu at, ac yn llywio'r Cynllun ac Asesiad Llesiant traws-sirol a gynhelir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB), fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Bydd hefyd yn edrych ar sut y gall cynghorau cymuned a thref gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Llesiant Sir Benfro.

Hyd yn hyn yn Ffordd Clarbeston a Chas-wis, rydym wedi:

- Cynnal digwyddiad creu gweledigaeth gymunedol a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 20 Mawrth 2019.

- Cynnal gweithgareddau creu gweledigaeth gydag ysgol gynradd Aeddau Sant ar 4 Ebrill 2019. Buom yn gweithio gyda thua 30 o blant o flynyddoedd 4-6 (8-11 oed) a chynhaliom nifer o weithgareddau gyda nhw yn ystod sesiwn 2 awr o hyd.

Dyma adroddiad o'n canfyddiadau.



FFORDD CLARBESTON A CHAS-WIS: PROFFIL Y GYMUNED

Mae plwyf Cas-wis yn un o'r mwyaf yn Sir Benfro.

Mae'n ardal amaethyddol gydag anheddiad gwasgaredig a chaiff y brif boblogaeth ei chanoli mewn pedair cymuned - Clarbeston, Ffordd Clarbeston, Dwyrain Waltwn a phentref Chas-wis ei hun.



Mae'r plwyf yn gorwedd i'r gogledd o'r A40, tua phum milltir i'r gogledd-ddwyrain o Hwlfordd. Cas-wis yw'r mwyaf deheuol o'r pentrefi a Dwyrain Waltwn yw'r mwyaf gogleddol, gyda Ffordd Clarbeston (y mwyaf o'r aneddiadau) a Chlarbeston (pentrefan bach) yn y canol.

Mae'r plwyf wedi ei leoli mewn ardal wledig hardd, gyda ffermydd a bythynnod gwasgaredig wedi eu gwasanaethu gan rwydwaith o ffordd ar oleddf, distaw. Mae gan bob cymuned hunaniaeth unigryw,



FFORDD CLARBESTON A CHAS-WIS

FFEITHIAU ALLWEDDOL (O GYFRIFIAD 2011):

Poblogaeth - roedd 1,097 o drigolion ym mhlwyf Cas-wis.

Tai - 460 o gartrefi, dim ond 3.7% sydd heb unrhyw breswylwyr arferol (h.y. cartrefi gwyliau) o'i gymharu â'r ganran sirol o 12.5%. Mae 75.2% o'r holl gartrefi yn eiddo a 68.3% yn dai sengl o'i gymharu â ffigurau isaf Sir Benfro, sef 68.8% yn eiddo a 41.6% yn dai sengl.

Cyflogaeth - mae 71.7% o breswylwyr yn economaidd weithgar, o'i gymharu â chyfartaledd o 66% yn Sir Benfro.

Mae 20.4% o'r trigolion yn hunangyflogedig o'i gymharu â chyfartaledd isel y sir o 13.5%.

'Amaethyddiaeth' a 'Chyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur oedd y cyflogwyr diwydiant mwyaf, gyda 14.2% o blwyf Cas-wis yn cael eu cyflogi gan bob un.

Mae amaethyddiaeth yn gyflogwr mawr iawn yn y plwyf o'i gymharu â chyfartaledd o 4.7% yn y sir.

Cyflogwyr allweddol eraill yn y plwyf oedd y diwydiant 'Adeiladu' gyda 11.6% a

'Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol' gyda 13.8%.

Strwythur oedran - mae'r gymuned yn cynnwys ystod o oedrannau, ond gyda llai o lawer o oedolion ifanc. Oedrannau 30-44 a 45-59 oedd â'r gyfran uchaf o ran canran gyda 16.9% a 22.6% yr un. Roedd nifer yr oedolion ifanc a phlant yn y plwyf yn is o lawer, gyda dim ond 9.8% o bobl 20-29 oed. Adlewyrchir y strwythur oedran hwn hefyd ar draws y sir.

Iechyd - 52.% o drigolion wedi dweud eu bod ag iechyd da iawn o'i gymharu â chyfartaledd Sir Benfro o 45.4%.



FFORDD CLARBESTON A CHAS-WIS

Mae nifer o fusnesau, adeiladau cymunedol, gweithgareddau a gwasanaethau o fewn yr ardal a ddynodwyd yn ystod y sesiwn creu gweledigaeth gymunedol ac sy'n cynnwys (heb fod mewn unrhyw drefn benodol):

Gwasanaethau busnes ac economi leol

- Nifer o ffermydd mawr
- Sawl busnes yn y pentrefi ac o'u hamgylch, gan gynnwys saer coed yn yr hen ysgol, clustogwr, milfeddygfa, J E Lawrence, Ffensio David Rees, Tom Bevan Trydanwr, Da Byw Anthony Rees, Delwyn Lewis Adeiladwr, Gwasanaethau Dŵr DJM, Green Warmth, Cynelau Cŵn Millin Brook
- Ffordd Clarbeston - swyddfa'r post a siop wedi uno
- Ffordd Clarbeston - dau dafarndy

Gweithgareddau a manau cymunedol

- Eglwys y Santes Fair
- Eglwys Bethany
- Eglwys Sant Martin o Tours, yr eglwys blwyf ganoloesol yn Clarbeston
- Ardal chwarae i blant.
- Mae'r Neuadd Goffa yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol ac addysgol yn y plwyf ac yn cynnwys cyfleusterau ailgylchu
- Caeau a Chlwb Pêl-droed Ffordd Clarbeston
- Ffair Aeaf
- Chwaraewyr Ffordd Clarbeston (drama amatur)
- Sioe deithiol Clarbeston
- Grŵp crefftau
- Pwyllgor Neuadd Ffordd Clarbeston - Ffair - Nadolig a chwaraeon / carnifal
- Merched y Wawr
- Tafarn The Cross
- Bingo
- Gwely blodau cymunedol
- Côr Tempus
- Noson gomedi

Treftadaeth a diwylliant

- Cerddoriaeth - cyngherddau yn eglwys y Santes Fair
- Cymdeithas hanes
- Chwaraewyr Ffordd Clarbie
- Safle castell hynafol
- Eglwysi hanesyddol (fel y nodir isod) a 2 gapel
- Plasty Scolton
- Archaeoleg

Tai, addysg a gwasanaethau cyhoeddus

- Ysgol WG yr Eglwys yng Nghymru Aeddan Sant
- Swyddfa'r post symudol
- Llyfrgell symudol
- Gwasanaeth bws
- Mae tai yng Nghas-wis o wahanol oed ac arddull ac yn cynnwys dwy ystâd fach. Mae sawl ystâd o dai yn Ffordd Clarbeston.
- Gorsaf drenau yn Ffordd Clarbeston
- Diffibriliwr yn y Neuadd Goffa

Gwybodaeth a chyfathrebu

- Newyddion 3 Tons
- Band Llydan Cyflym Iawn - Cas-wis
- Tudalennau Facebook grwpiau cymunedol amrywiol (e.g. 3 Tons, eglwys ayyb)
- Bwrdd gwybodaeth y pentref
- DS dim band llydan ar gyfer eiddo pellennig o hyd
- DS signal ffôn symudol gwael / dim signal ffôn symudol

Cyfranogiad cymunedol a democratiaeth leol

- Cyngor Cymuned
- Pwyllgor Neuadd

Amgylchedd naturiol a chynaliadwyedd

- Canolfan ailgylchu yn y Neuadd Goffa
- Coed hynafol yng Nghas-wis
- Parc solar yng Nghas-wis



FFORDD CLARBESTON A CHAS-WIS: HANES LLEOL

Mae cryn dystiolaeth o weithgarwch dynol cynnar ym mhlwyf Cas-wis. Mae fflintiau Mesolithig wedi'u canfod yn Colby Moor a Woodbarn Rath, tra gwelwyd tystiolaeth o waith fflint Neolithig hefyd. Gwelwyd olion tomenni llosgi o'r Oes Efydd yng Nghoedwig Cas-wis. Fel llawer o gymunedau yn Sir Benfro, mae gweddillion o aneddiadau o'r oes haearn i'w gweld hefyd. Meddiannwyd rhai, fel Gwersyll Merryborough, sydd bellach wedi'i ddiarhysio, yn ystod oes y Rhufeiniaid, ac yn ddiweddarach o bosib.

Roedd cyfnod y Normaniaid yn arwyddocaol iawn i Gas-wis wrth iddo ddod yn sylfaen grym i Wizo'r Fleming, a enwodd yr anheddiad pan sefydlodd Gastell Cas-wis yn yr 12fed ganrif. Dim ond rhan o'r cerrig sy'n dal i sefyll heddiw ond mae'n enghraifft ardderchog o gastell mwnt a beili canoloesol. Roedd Wizo, neu Gwys i roi ei deitl Cymreig iddo, yn un o Arglwyddi mwyaf dylanwadol gorllewin Cymru. Gosododd yr olygfa ar gyfer gwahanol frwydrau a gwrthdaro ynghylch pŵer dros y canrifoedd a ddilynodd.

Disodlodd faenordy, sydd bellach yn Fferm Faenor, y castell fel y sedd bŵer lleol ar ôl amseroedd ansefydlog y 12fed a'r 13eg ganrif. Roedd yn gartref i gangen o'r Woganiaid - un o deuluoedd blaenllaw Sir Benfro yn oes Elisabeth a arhosodd yno tan y 17eg ganrif. Mae'n sefyll ar safle adeilad llawer hynach ac mae olion pyllau pysgod i'w gweld, a fyddai wedi rhoi dewis ehangach o fwyd i'r trigolion.

Neilltuwyd eglwys fawr y plwyf i'r Santes Fair yn y cyfnod Normanaidd. Daethpwyd o hyd i nifer o safleoedd tai canoloesol hefyd ac mae'r ardal o amgylch yr eglwys, y castell a'r maenordy wedi'i dynodi'n Ardal Gadwraeth.

Cynhaliodd Cas-wis ffair flynyddol ar 20fed Hydref ond daeth y farchnad wythnosol i ben yn 1600. I'r dwyrain ceir Colby Moor, lle y bu brwydr Rhyfel Sifil bwysig.



LLESIANT YN Ffordd CLARBESTON A CHAS-WIS

Croesawodd PLANED yr holl bobl leol i sesiwn creu gweledigaeth gymunedol yn Neuadd Goffa Ffordd Clarbeston ar 20 Mawrth 2019. Isod ceir y canfyddiadau allweddol ynghylch llesiant.

Beth sy'n gweithio'n dda yng nghymuned Ffordd Clarbeston a Chas-wis?

- Ysbryd cymunedol da
- Cymdogol
- Amgylchedd diogel / Trosedd yn isel
- Clwb pêl-droed gweithgar sy'n trefnu digwyddiadau cymunedol
- Cymdeithas hanes - coffáu 50 mlynedd
- Neuadd Goffa a gweithgareddau
- Tafarn
- Gorsaf reilffordd a gwasanaeth rheilffordd aml
- Ysgol Aeddau Sant
- Y castell
- Balchder cymunedol



Beth allai wella ansawdd eich bywyd?

- Mwy o drafnidiaeth gyhoeddus a gorsafoedd bws
- Gwirfoddolwyr yn hwyluso digwyddiadau cymunedol
- Llwybrau cerdded a beicio mwy diogel
- Cyfleoedd i drigolion hŷn
- Cyfleoedd cyflogaeth lleol
- Signal ffôn a band llydan gwell
- Mwy o dai fforddiadwy
- Mwy o gyfathrebu gan y Cyngor Cymuned
- Man cyfarfod yng Nghas-wis
- Lle canolog i gael gwybodaeth
- Mwy o finiau baw cŵn
- Dod o hyd i ffyrdd o leihau unigedd ac arwahanrwydd
- Gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc e.e. clwb ieuentid
- Datblygu mwy o ddefnydd o gyfleusterau chwaraeon
- Sefydlu clybiau cymunedol e.e. garddio, cerdded
- Sefydlu canolfannau cymunedol e.e. rhwydwaith celf, nosweithiau
- cwis



Ardal chwarae yng Nghas-wis

- Gwella edrychiad, e.e. casglu sbwriel a gwelâu blodau
- Digwyddiadau fel caffi pop-up neu farchnad gynnyrch
- Mwy o ddefnydd o'r dafarn leol

Y prif syniadau am brosiect a fydd yn helpu i wella ansawdd bywyd:

Prosiect 1 - Digwyddiadau Cymunedol

Awgrymodd y cyfranogwyr amryw o grwpiau a sefydliadau cymunedol a allai gydweithio fel y CFFI a'r ysgol. Teimlwyd y byddai angen mwy o gymorth a chyfathrebu cymunedol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd.



Prosiect 2 - Dod â'r Gymuned Ynghyd

Trafodwyd yr awydd i gwrdd â chymdogion a helpu trigolion hŷn ac awgrymodd y cyfranogwyr y dylid creu grwpiau cymunedol i ddiwallu'r angen hwn. Nodwyd y byddai angen ystyried hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth i fod yn llwyddiannus.

Prosiect 3 - Amgylchedd

Roedd cyfranogwyr am gael ardal fwy glân a gwyrdd lle gellid sefydlu grwpiau i gynnal hyn. Codwyd y syniad o ddenu'r trigolion i ddefnyddio sgiliau fel garddwriaeth ac efallai y bydd angen arian ar gyfer planhigion a phobl i gasglu sbwriel.



Prosiect 4 - Dosbarthiadau a Chlybiau

Awgrymwyd gwahanol ddosbarthiadau fel celf a gwyllo adar. Cytunwyd bod gan y gymuned leoliad ond bod angen uwchraddio'r darpariaethau.

Prosiect 5 - Gwelliannau Trafnidiaeth

Mae angen gwell mynediad at drafnidiaeth a gwella cyfleusterau'r orsaf drenau a chreu gorsafoedd bws.

Prosiect 6 - Cyfleusterau Cymunedol

Cafwyd trafodaeth ynghylch moderneiddio'r cyfleusterau a chreu safleoedd newydd megis parc chwarae yng Nghas-wis.



Prosiect 7 - Grwpiau Gweithgareddau Cymunedol

Awgrymwyd bod angen cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn yr holl weithgareddau a defnyddio grwpiau sirol sy'n bodoli eisoes.

MAE LLEISIAU IEUENCTID O BWYS

#dimonddweud

Cynhaliodd prosiect Llesiant a Gwytnwch Cymunedol PLANED sesiwn creu gweledigaeth gyda 30 o blant 8 - 11 oed ar 4ydd o Ebrill 2019.

Cafodd y gweithgareddau ysgol eu cynllunio gyda fframwaith FFYNNU ar gyfer addysg mewn golwg ac roedd yn canolbwyntio ar lesiant a gwytnwch a'r cysylltiad gyda hapusrwydd, ysbryd cymunedol a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Mae canfyddiadau allweddol y sesiwn hon i'w gweld isod.

Sut mae caredigrwydd yn edrych?

Gweithgaredd 1 Hapusrwydd a Llesiant

Dywedodd y plant wrthym fod caredigrwydd yn golygu 'rhannu, peidio â gadael neb allan, rhoi cyngor i bobl, gofalu am bobl, helpu rhywun mewn angen a chynnwys pawb'.

Gweithgaredd 2 Lleisiau Ieuencid o Bwys Sylwadau allweddol gan y myfyrwyr:

- Mae'n bwysig gwrando ar bobl ifanc gan ein bod â gweledigaethau a safbwyntiau gwahanol.
- Mae'n bwysig gwrando ar bobl ifanc oherwydd gall penderfyniadau effeithio ar ein dyfodol ni.
- Rhoddwyd gwybod i'r myfyrwyr am eu cyngor cymuned oherwydd yn ystod trafodaeth, nid oedd y rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu â'u cyngor lleol nac yn dangos dealltwriaeth yn ei gylch na sut y gallai eu cyngor ysgol gydweithio.

Eich lleisiau + dewisiadau



MAE LLEISIAU IEUENCTID O BWYS




Gweithgaredd 3

Adeiladu eich Cymuned Ddelfrydol

Gweithiodd y myfyrwyr gyda'i gilydd i ddylunio eu cymuned ddelfrydol a dangos balchder yn lle maent yn byw. Blaenoriaethau allweddol ar gyfer y plant oedd:

- Ardaloedd Chwarae
- Amaethyddiaeth a Ffermio
- Mynediad at ofal iechyd o safon dda
- Diogelu a gwerthfawrogi natur, cefn gwlad a'r amgylchedd
- Cyfleusterau addysgol da
- Cymuned fywiog gydag ysbryd cymunedol cadarnhaol



Gweithgaredd 4 Amser Teithio Mewn Amser

Roedd y myfyrwyr i'w gweld yn mwynhau ysgrifennu cardiau post iddynt eu hunain o'r dyfodol ac yn rhannu themâu. Dyma rai dyfyniadau allweddol:

- 'Mae pawb wedi mynd yn dew oherwydd cadeiriau sy'n hofran'
- 'Mae natur yn marw' 'Mae'r gwair i gyd yn felyn'
- 'Nid oes plastig erbyn hyn' 'Mae mwy o barciau' 'Mae tai ar olwynion'
-

CASGLIAD A CHAMAU A ARGYMHELLIR

Mae adroddiadau llawn ar gael gan Gyngor Cymuned Cas-wis.



Ar ddiwedd y sesiwn creu gweledigaeth gymunedol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn gallu darparu unrhyw fath o gymorth. Rhoddodd y cyfranogwyr hyn eu henw ar y Wal Adduned, ynghyd â'r math o gymorth yr oeddent yn hapus i'w ddarparu. Cafodd llawer o addewidion eu gwneud gan gynnwys helpu i gynnal digwyddiadau a chlybiau cymunedol, ymweld â thrigolion hŷn, helpu i godi arian, cefnogi grwpiau lleol a siarad â Chyngor Sir Penfro ynghylch casglu sbwriel.

O drafodaethau gyda myfyrwyr yn ysgol Aeddau Sant, awgrymir y gallai fod o fudd i fyfyrwyr Ysgol Cas-wis gael cysylltiad cryfach â'r cyngor cymuned. Efallai y gall cynrychiolwyr ymweld â'r ysgol a siarad yno. Gellid archwilio'r posibilrwydd o greu parc chwarae a ffyrdd o ddiogelu'r amgylchedd, a rhannu syniadau gyda'r myfyrwyr.



'Mae'r goeden yn symbol o'r pentref a'r dail yw'r bobl o'i hamgylch sy'n gysylltiedig â helpu'r amgylchedd'.

Ysbryd cymunedol wedi ei egluro gan fyfyrwr yn Ysgol Aeddau Sant.

